Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Rhagfyr 2025

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2], gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) ar 3 Tachwedd 2025.

**2.** Yn ystod ei ddatganiad llafar adeg cyflwyno'r Bil, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai "nod y Bil yw gwella, cynnal a hyrwyddo llety ymwelwyr yng Nghymru".[3]

**3.** Mae'r Bil:

- yn ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hybu twristiaeth yng Nghymru ac, ar yr un pryd, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried yr effaith gymdeithasol y gallai twristiaeth ei chael a'r effaith y gallai ei chael ar yr amgylchedd a'r Gymraeg, ac
- yn rheoleiddio darpariaeth llety ymwelwyr yng Nghymru drwy:
  - gyflwyno trefn drwyddedu i roi sicrwydd i ymwelwyr fod llety'n bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a sicrhau bod y safonau hynny, yn achos llety hunanarlwyo, yn cyd-fynd yn agosach â safonau cyfatebol sydd eisoes yn gymwys i'r sector rhentu preifat yng Nghymru,
  - gwneud safon mewn perthynas â ffitrwydd llety ymwelwyr yn ofyniad contractiol, ac
  - adeiladu ar y gofrestr a grëwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025[4] (Deddf Llety Ymwelwyr 2025) i sefydlu cyfeiriadur llety ymwelwyr at ddiben darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.[5]

**4.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 13 Tachwedd 2025[6], gan:

[1] Llywodraeth Cymru, y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2025, paragraff 206
[4] Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac ardoll) Etc. Cymru 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025

- Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg;
- Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru;
- Rebecca Hawkins, Ymgynghorydd Polisi Deddfwriaethol, Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru;
- Andrew Hobden, Economegydd, Llywodraeth Cymru.

**5.** Cafodd gwaith craffu polisi ei gynnal ar y Bil gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.[7]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.[8]

[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Goblygiadau ariannol y Bil

## Crynodeb o'r costau

**7.** Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu gwerthuso dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2026-27 a 2035-36. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil dros y cyfnod asesu yw £41.84 miliwn.[9]

**8.** Amcangyfrifir mai costau cydymffurfio y darparwyr llety ymwelwyr dros y cyfnod gwerthuso yw £32.37 miliwn. Byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgwyddo costau net o £6.73 miliwn ac amcangyfrifir mai costau Llywodraeth Cymru dros y cyfnod gwerthuso yw £2.73 miliwn.[10]

**9.** Mae crynodeb o'r costau i'w weld yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) rhwng 2026 a 2036***

| Disgrifiad o'r gost | Cost (£ miliwn) |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau cyfle | 2.43 |
| Swm ychwanegol ar gyfer gorfodaeth | 0.3 |
| Cyfanswm y costau | 2.73 |
| Awdurdod Trwyddedu | |
| Costau trosiannol | 6.73 |
| Costau gweithredu | 13.18 |
| Ffioedd Trwydded | -13.18 |
| Cyfanswm costau net | 6.73 |
| Darparwyr llety ymwelwyr | |
| Costau trosiannol | 5.66 |
| Costau parhaus | 26.71 |
| Cyfanswm y costau | 32.37 |
| Cyfanswm costau'r Bil | 41.84 |

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 38
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 40 a 70

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2025[11]
Noder: Efallai na fydd y cyfansymiau'n cytuno oherwydd talgrynnu

## Costau heb eu meintoli

**10.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r posibilrwydd y gall rhai darparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio gadael y sector yn hytrach na chydymffurfio â gofynion statudol:

> "Os mai felly y bydd pethau, gallai cyfanswm y llety hunanddarpar sydd ar gael i ymwelwyr leihau, a allai arwain at lai o arosiadau dros nos gan ymwelwyr â Chymru - *neu, i'r gwrthwyneb, at well cyfraddau meddiannaeth i'r darparwyr sy'n weddill."*[12]

**11.** Wrth drafod yr effaith y gallai costau cronnol ei chael ar y sector llety ymwelwyr o ystyried mai yn ddiweddar y pasiwyd Deddf Llety Ymwelwyr 2025, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… if the local authority in which you are located chooses not to take up the permissive power of the visitor levy Bill, the only costs that you will face will be the opportunity cost of the between 10 and 15 minutes that we think it will cost someone to register under the system. So, for very many providers, there will be no cash costs at all involved there."*[13]

**12.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai £172 fydd cost flynyddol amcangyfrifedig y drefn drwyddedu ar gyfer darparwr arferol sydd â dau safle, neu lai na £1 y dydd os caiff y safleoedd hynny eu gosod am dri mis o'r flwyddyn. Ychwanegodd:

> *"I don't think that's going to be the determining factor as to whether or not anybody enters the industry or decides to continue to operate within it."*[14]

**13.** Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhagweld faint o ddarparwyr allai ddewis gadael y farchnad, ond mae'n nodi:

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 70
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 40
[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 283
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 284

> *"… nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol bod y sector yn crebachu o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau trwyddedu tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt."*[15]

**14.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad oedd yn pryderu'n ormodol am ddarparwyr yn gadael y diwydiant gan fod pedwar o bum amod y drwydded yn rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol. Dadleuodd na ddylai'r rhai sy'n methu bodloni safonau diogelwch ac ardystio sylfaenol fod yn gweithredu beth bynnag, ac aeth ymlaen i ddweud:

> *"… there will be still many operators who do meet the conditions for the licence who are underoccupied and will be able to pick up any marginal slack there may be for that small number of operators who find that they can't meet the requirements of the licensing scheme."*[16]

## Manteision

**15.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bydd y cynllun trwyddedu "yn cael effeithiau cadarnhaol ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac ar gymunedau lle mae'r diwydiant yn bresenoldeb amlwg", gan gynnwys:

- mwy o ymwybyddiaeth o ofynion statudol, a hyder ynddynt gan ymwelwyr, gan gynorthwyo'r sector llety ymwelwyr;
- mwy o degwch a chydymffurfiaeth ar draws y sector llety hunanddarpar, sy'n sicrhau chwarae teg ac yn annog cystadleuaeth.[17]

**16.** Fodd bynnag, dywed Llywodraeth Cymru "[nad] yw'n bosibl rhoi gwerth ariannol ystyrlon ar fanteision ynghylch ansawdd, gwella hyder a chanfyddiadau, a siapio marchnadoedd llety lleol".[18]

**17.** Pan ofynnwyd iddo a ystyriwyd defnyddio data o gynlluniau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i helpu i feintioli manteision posibl yng Nghymru, dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol oherwydd bod eu cynlluniau yn wahanol a bod ganddynt ddata cyfyngedig neu sydd wedi dyddio. Ymhelaethodd:

---

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 40
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 287
[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 41
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 41

> *"In the Scottish case it's difficult because the scheme has only been fully in operation since the start of this year, so you've got less than one year's evidence to draw on. That wouldn't be enough, I think, to be able to put a reliable, quantifiable, comparative figure... The Northern Ireland arrangements completely predate anything like online booking platforms and all the things that have made entry into this market much easier, and I think that makes it difficult then to draw comparisons with the position that we've tried to respond to in this Bill."*[19]

**18.** Yn hytrach, dywedodd fod cyngor gan Croeso Cymru a'i waith ar safonau ansawdd gwirfoddol wedi llywio'r dull gweithredu.[20]

## Opsiynau'r Bil

**19.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri opsiwn.

### Opsiwn 1

**20.** O dan yr opsiwn 'busnes fel arfer' hwn, byddai darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn parhau i weithredu yn absenoldeb cynllun trwyddedu statudol. Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad oes "costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, na darparwyr llety ymwelwyr".[21]

**21.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai gwneud dim:

> "... yn golygu y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, lle gallai nifer cynyddol o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru fod yn darparu llety nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion statudol presennol, gyda pherygl o danseilio enw da'r sector a niweidio economi ymwelwyr Cymru."[22]

**22.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y byddai'r opsiwn hwn yn "parhau â'r gwahaniaeth rheoleiddiol presennol rhwng y sector rhentu preifat a'r sector rhentu tymor byr" y mae cynrychiolwyr landlordiaid a sefydliadau ymgyrchu wedi dadlau ei fod yn ffactor wrth gymell perchnogion eiddo i symud o'r sector rhentu

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 291-292
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 293
[21] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 43
[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 43

tymor hir i'r farchnad gosod tymor byr, gan waethygu'r prinder tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae galw mawr am dwristiaeth.[23]

### Opsiwn 2 (yr opsiwn a ffefrir)

**23.** Yr opsiwn a ffefrir yw cyflwyno cynllun trwyddedu llety ymwelwyr ledled y wlad, wedi'i ategu gan ofynion hyfforddi, tystiolaeth ddogfennol o gydymffurfiaeth, a dull cudd-wybodaeth a seiliedig ar risg o orfodi mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill.[24]

**24.** Byddai un awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am y canlynol:

- prosesu a rhoi trwyddedau, gan weithio ochr yn ochr ag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i sicrhau dull cydgysylltiedig o ran cofrestru llety ymwelwyr;
- canfod ac ymchwilio i achosion posibl o beidio â chydymffurfio â gofynion trwyddedu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill;
- gorfodi gofynion trwyddedu drwy roi cosbau, dirymu trwyddedau, ac erlyniadau.[25]

### Opsiwn 3

**25.** Byddai opsiwn 3 yn cyflwyno cynllun trwyddedu llety ymwelwyr a gefnogir gan drefn drylwyr o ran sicrwydd, cydymffurfio a gorfodi, sy'n cael ei darparu gan yr awdurdod trwyddedu yn unig. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gynnal archwiliadau ffisegol o bobl lety ymwelwyr i gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol perthnasol cyn rhoi neu adnewyddu trwydded.[26]

**26.** Er y byddai'r opsiwn hwn yn rhoi mwy o sicrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi na all archwiliadau ffisegol warantu cydymffurfiaeth barhaus, gan y gall amodau newid ar ôl dyddiad yr archwiliad.[27]

**27.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai'r opsiwn hwn yn fwy llafurddwys a chostus i'r awdurdod trwyddedu, ac yn fwy beichus i

[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 44
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 45
[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 45
[26] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48
[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48

ymgeiswyr/trwyddedeion, gan arwain at ffioedd uwch o'i gymharu â'r opsiwn a ffefrir. Mae hefyd yn nodi y gallai archwiliadau fod yn anghyfleus neu'n ymwthiol i ymwelwyr sy'n aros yn y llety. O ganlyniad, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

> *"Am y rhesymau hyn, nid yw'r opsiwn hwn wedi cael ei ddatblygu i'w ddadansoddi ymhellach."*[28]

**28.** O ran absenoldeb dadansoddiad cost ar gyfer Opsiwn 3, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I didn't want the team of people who were working on preparing the Bill to spend a lot of their time preparing costs for a scheme that I wasn't going to operate, when it was quite difficult to get reliable costs for the scheme I did want to operate."*[29]

## Cynlluniau trwyddedu y DU

**29.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod "cynllun Gogledd Iwerddon yn cynnwys archwiliadau ffisegol sy'n cymryd llawer o amser". Mae hefyd yn nodi bod y cynllun trwyddedu yn yr Alban yn cael ei weinyddu gan bob awdurdod lleol yn ei ardal ei hun ac nad oes angen archwiliad ffisegol na thystiolaeth ddogfennol o gydymffurfio â gofynion diogelwch. Fodd bynnag, "os oes cwyn neu os canfyddir risg", gall awdurdodau lleol yr Alban "ofyn am dystiolaeth ddogfennol o gydymffurfio, neu gynnal ymweliadau os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol".[30]

**30.** Ym mis Awst 2024, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adroddiad gweithredu ar gynllun yr Alban, a oedd yn cynnwys adborth gan ddarparwyr llety ymwelwyr.[31]

**31.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod tystiolaeth o'r dull o drwyddedu yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban:

> *"... wedi arwain Llywodraeth Cymru i ddod i'r casgliad, os ydym am gynyddu lefelau ymgysylltu a chydymffurfio â chynllun trwyddedu yng Nghymru, y bydd yn bwysig osgoi creu prosesau ymgeisio a sicrwydd sy'n cael eu hystyried yn rhy feichus a*

[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 48-49
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 312
[30] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[31] Llywodraeth yr Alban, Short-Term Let Licensing Implementation Update Report 2024

> *llafurus gan y sector, neu ar y llaw arall, trefn sy'n cael ei hystyried yn aneffeithiol ac y gellir ei hosgoi'n hawdd o bosibl oherwydd diffyg gorfodi."*[32]

**32.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwersi o'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi ffurfio'r dull trwyddedu arfaethedig, yn ogystal â thystiolaeth y mae wedi'i chasglu o'r sector ei hun. Esboniodd fod model Gogledd Iwerddon, sy'n gofyn am archwiliadau ffisegol ar gyfer pob trwydded, yn cael ei ystyried yn ymwthiol ac yn or-gymhleth. Yn yr un modd, gwrthodwyd y cynllun a weinyddir yn lleol yn yr Alban o blaid un cynllun a weinyddir yn genedlaethol i sicrhau cysondeb a lleihau cymhlethdod i weithredwyr sy'n rheoli eiddo ar draws sawl ardal.[33]

## Rhagdybiaethau

**33.** Wrth ddatblygu'r amcangyfrifon cost, dywed Llywodraeth Cymru mai'r brif her yw "prinder data dibynadwy ar nifer y llety hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru", gan nodi'r bwlch data hwn fel rheswm allweddol dros gyflwyno'r darpariaethau cofrestru yn Neddf Llety Ymwelwyr 2025. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi[34] bod rhagdybiaethau cost wedi'u llywio gan y canlynol:

- Data stoc llety[35]
- Rhestr ardrethi annomestig[36]
- Ail gartrefi: Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?[37]
- Lighthouse Hosts[38]
- Dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o lety gwyliau tymor byr a restrir ar blatfformau ar-lein[39]

[32] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 307-309
[34] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 51-53
[35] Data stoc llety, fel ym mis Mehefin 2022
[36] Rhestr ardrethi annomestig, 31 Mawrth 2025
[37] Ail gartrefi: beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?, Mehefin 2023
[38] Lighthouse Hosts, Mehefin 2025
[39] Dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o lety gwyliau tymor byr a restrir ar blatfformau ar-lein, o Chwarter 4 2023

**34.** Pan ofynnwyd iddo a allai'r Bil fod wedi cael ei ohirio nes bod y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a grëwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr 2025 yn cael ei sefydlu o ystyried y diffyg data dibynadwy, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"The reason why I didn't feel that that was the right thing to do was that this piece of legislation was a commitment in the manifesto of my party, and other parties, at the last Senedd election 2021. It's there in the programme for government, it's there in the co-operation agreement, and if we waited for the evidence that will come from the register, that would mean we couldn't legislate in this Senedd term. We would not be able to fulfil the commitment we made to people in Wales on those successive occasions."*[40]

**35.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei bod yn "anodd rhagweld ymddygiad y farchnad yn y dyfodol yn gywir ar sail data tueddiadau hanesyddol" oherwydd "natur amrywiol iawn y farchnad llety gwyliau tymor byr". Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd yn ganiataol nad yw "nifer yr eiddo a'r darparwyr yn newid dros amser" ac yn dweud:

> *"… bydd data gwell ar gael ar ôl cofrestru, ac mae unrhyw dwf neu ostyngiad yn debygol o fod o fewn ein hamrediadau isel i uchel."*[41]

**36.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymeg dros seilio amcangyfrifon ar y rhagdybiaeth bod nifer yr eiddo a'r darparwyr yn aros yr un fath:

> *"Because it is genuinely impossible, I think, to be able to predict, with an accuracy that would lead to a figure in the RIA, whether this is an industry that will continue to grow—. It has grown very rapidly, this particular slice of the industry, but other parts of tourism in Wales have not grown at all in that way."*[42]

**37.** O ran ei hyder yn yr amcangyfrifon y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn eu cyflwyno, dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet ei fod mor hyderus ag y gall fod o ystyried yr ansicrwydd presennol. Dywedodd wrthym fod y ffigurau wedi cael eu llywio gan y sector a'u datblygu gan ddefnyddio dull rhagofalus, nad yw'n cynnwys gostyngiadau costau posibl fel awtomeiddio prosesau gweinyddol. Ychwanegodd:

---

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 296
[41] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 53-54
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 333

> *"I think if the costs in the scheme are awry, it's a plausible case for saying that they're awry because they've been overstated, rather than because they've been understated."*[43]

## Costau trosiannol

### Costau Llywodraeth Cymru

**38.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi "costau trosiannol wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r staffio a'r seilwaith sydd eu hangen i sefydlu'r cynllun trwyddedu a chynorthwyo'r gwaith o'i gyflwyno". Mae hyn yn cynnwys cost datblygu canllawiau ac ymgyrch gyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun trwyddedu.[44]

**39.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys amcangyfrifon isel, uchel, a gorau ar gyfer y cyfnod sefydlu, gyda'r amcangyfrif gorau yn rhoi "brasamcan rhesymol o'r costau trosiannol".[45]

***Tabl 2: Amcangyfrif gorau ar gyfer sefydlu cynllun trwyddedu***

| Cost drosiannol £ miliwn | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu seilwaith | 1.78 | 1.81 | 0.35 | **3.93** |
| Refeniw | | | | |
| Costau sy'n gysylltiedig â TG | 0.39 | 0.39 | 0.42 | **1.19** |
| Datblygu hyfforddiant darparwyr | - | 0.08 | - | **0.08** |
| Ymgyrchoedd a chyfathrebu | 0.10 | 0.10 | 0.20 | **0.40** |
| Costau staff yr Awdurdod Trwyddedu | - | - | 1.13 | **1.13** |
| **Cyfanswm costau refeniw** | **0.49** | **0.57** | **1.75** | **2.80** |
| Costau cyfle (staff Llywodraeth Cymru) | 1.08 | 1.16 | 0.19 | **2.43** |
| **Cyfanswm** | **3.34** | **3.53** | **2.29** | **9.16** |

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2025[46]

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 299-302
[44] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55
[45] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55
[46] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Tabl 3

**40.** Caiff yr ateb digidol ei nodi fel elfen allweddol o'r costau trosiannol, a bennir ar ôl cwmpasu gofynion y system ac ochr yn ochr â phenderfyniadau ynghylch swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gall y gost o sefydlu system TG "amrywio'n fawr o amcangyfrifon cynnar" ac y caiff ei mireinio dros y flwyddyn i ddod. Mae'n dweud y bydd yr ateb digidol:

> *"… yn manteisio ar synergeddau posibl â system cofrestru llety ymwelwyr ACC, felly disgwylir y bydd arbedion effeithlonrwydd wrth i ACC ddatblygu'r system drwyddedu hefyd. Fel arall, gallai'r awdurdod trwyddedu gaffael system wedi ei theilwra o'r farchnad, a allai gymryd mwy o amser oherwydd amserlenni caffael."*[47]

**41.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhagweld y bydd y system TG ar gyfer y cynllun trwyddedu yn cael ei datblygu gan ddefnyddio arbenigedd mewnol ACC, wedi'i ategu gan arbenigwyr allanol lle bo angen. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu dull blaenorol ACC o adeiladu ei systemau TG ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir.[48]

**42.** O ran sicrhau nad yw costau datblygu systemau TG yn cynyddu yn erbyn y costau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at hanes cryf ACC o ran mewn adeiladu systemau o'r dechrau. Cyfeiriodd hefyd at nifer o fesurau gwirio i ganfod unrhyw broblemau'n gynnar:

> *"The WRA is a non-ministerial public body, so it has a board that it is answerable to, who have direct oversight of it. I meet monthly with the senior management team of the WRA, and this is always an item on the agenda…. And, of course, the Finance Committee has independent rights of access to the WRA as well, were the committee ever to feel that you too needed to scrutinise the costs as they were developing."*[49]

**43.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y costau amcangyfrifedig yn seiliedig ar gynlluniau tebyg ond mae'n awgrymu "gall manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial a swyddogaethau digidol leihau costau gweithredu, a'r baich ar ddarparwyr llety ymwelwyr", er y gallai fod angen cyllid ychwanegol i ddatblygu hyn.[50]

---

[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 338
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 340-342
[50] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55

**44.** Er y gallai awtomeiddio leihau costau a beichiau gweinyddol, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r manteision hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y costau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[51]

## Costau i ddarparwyr llety ymwelwyr

**45.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd gweithredwyr sy'n cynnig llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru yn wynebu costau cyfle untro pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r gofynion cyfreithiol, cwblhau hyfforddiant, sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion trwyddedu, a chyflwyno ceisiadau gyda thystiolaeth ddogfennol fel tystysgrifau. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld costau is ar gyfer adnewyddu trwyddedau blynyddol a hyfforddiant gloywi o'i gymharu â'r costau cychwynnol, oherwydd dylai ceisiadau a diweddariadau dilynol gymryd llai o amser.[52]

**46.** Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwblhau hyfforddiant cyn cael trwydded, gyda ffi hyfforddi amcangyfrifedig o £25 a chost cyfle o tua £65 am bedair awr o'u hamser, gan ddod â chyfanswm y gost amcangyfrifedig fesul ymgeisydd i £90.[53]

**47.** Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am "bennu ffioedd, y lefelau a'r strwythur". Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r "ffi gyfartalog ar gyfer llety ymwelwyr hunanddarpar fod oddeutu £75 y flwyddyn fesul safle" ar gyfer "blynyddoedd cyntaf" y cynllun.[54]

**48.** Hefyd, disgwylir i ymgeiswyr ysgwyddo costau cyfle mewn perthynas â llwytho dogfennaeth berthnasol a chwblhau'r broses ymgeisio:

> *"Ar sail ffigur enillion cyfartalog fesul awr o £16.33, mae hyn yn cyfateb i gost cyfle o ychydig dros £8 i ymgeisydd sy'n trwyddedu un safle; £12 i ddau safle, a £29 i chwe safle."*[55]

**49.** Mae'r Bil yn cyflwyno amodau trwyddedu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau nwy, trydanol a diogelwch tân statudol presennol. Mae hefyd yn gwneud yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ofynnol ar gyfer llety trwyddedig. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cymryd yn ganiataol y bydd gan 75 y cant o ddarparwyr yswiriant eisoes drwy blatfformau fel Booking.com ac Airbnb, sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd

[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 348
[52] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59
[53] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59
[54] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 59-60
[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60

cyhoeddus mewn costau aelodaeth, gyda'r 25 y cant sy'n weddill yn wynebu cost gyfartalog amcangyfrifedig o £500 y flwyddyn ar gyfer dau safle.[56]

**50.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod na fydd rhai darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion presennol, ac y bydd darparwyr newydd i'r sector yn ysgwyddo treuliau i fodloni holl amodau perthnasol y drwydded. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghost gyffredinol y Bil gan eu bod yn ymwneud â rhwymedigaethau statudol presennol. Ar gyfer darparwr newydd ag un safle, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu cost gyfartalog o £556 i fodloni'r gofynion presennol, sy'n cynnwys:

- Costau archwilio nwy: £75
- Costau archwilio trydanol: £175
- Costau gosod larwm mwg: £200
- Costau gosod larwm carbon monocsid: £90
- Cost cyfle asesu risg diogelwch tân: £16.[57]

**51.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o gostau trosiannol amcangyfrifedig i'r sector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru, gan y bydd yn amrywio yn dibynnu ar nifer y safleoedd sydd wedi'u trwyddedu. Yr amcangyfrif gorau yw £5.66 miliwn yn seiliedig ar 30,000 o safleoedd sydd wedi'u trwyddedu gan 15,000 o ddarparwyr. Disgwylir i'r rhan fwyaf o gostau gael eu hysgwyddo yn ystod 2029-30 pan ddaw trwyddedu gorfodol i rym, a rhagwelir peth gwariant yn 2028-29.[58]

**52.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at gyswllt helaeth â'r darparwyr llety, gydag adborth yn pwysleisio'r angen am gynllun cost isel, effeithlon. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… a licence will cost, we think, £75 a year—that's our current estimate. I'm sure that will be refined as the process goes on, but I hope that that is a demonstration that we have listened carefully and designed a scheme that could be low cost, as*

[56] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60
[57] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 67-69
[58] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61

> *efficient, but still sufficiently robust to ensure the integrity of the scheme."*[59]

## Costau rheolaidd

### Awdurdod Trwyddedu

**53.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi "nid ydym wedi penderfynu a ddylai swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu gael eu cyflawni'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru".[60]

**54.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn disgwyl mai Awdurdod Cyllid Cymru fydd yr awdurdod sy'n ymdrin â phen mwy awtomatig y broses hon oherwydd y synergeddau gyda'r system gofrestru. Ar gyfer achosion mwy cymhleth sy'n gofyn am ddyfarniad ar lawr gwlad, awgrymodd y gallai awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb, ar ffurf 'model awdurdod lleol arweiniol' tebyg i Rhentu Doeth Cymru, neu Croeso Cymru. Nododd y caiff penderfyniadau terfynol ar y trefniadau hyn eu gwneud yn nes ymlaen:

> *"There are a number of things where I think Ministers have to be a bit careful not to get too far ahead of the legislature. There is no Bill, the Senedd has not decided whether this is a Bill it will support, we're not even at the end of Stage 1. The extent to which, as Ministers, you should be sponsoring work that costs money in order to resolve those questions—. I think, as a Minister, you ought to be careful of that line, really."*[61]

**55.** Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod ACC wedi cael £430,000 yn ystod y flwyddyn i ddechrau gwaith darganfod fel bod y cysoni rhwng y systemau cofrestru a thrwyddedu yn creu arbedion ariannol ac yn haws i ddarparwyr eu defnyddio.[62]

**56.** Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ysgwyddo costau gweithredu parhaus ar gyfer rheoli'r cynllun, gan gynnwys hyfforddiant, prosesu ceisiadau, a chydymffurfiaeth a gorfodaeth. Dros amser, dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y "disgwylir y bydd ffioedd trwyddedu yn talu costau gweithredu'r cynllun yn

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 351
[60] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 43
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 319-322
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 326

llawn, a disgwylir y bydd costau camau gorfodi angenrheidiol yn cael eu talu o gosbau penodedig cysylltiedig". Ychwanegodd:

> "… *er efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu cyllid, yn enwedig ar y cychwyn…* Tan bydd y cynllun trwyddedu yn cyllido ei hun yn llawn, pennir ffioedd ar lefel sy'n adlewyrchu'r amcangyfrifon gorau o gostau'r cynllun."[63]

**57.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio bod cyfanswm o £300,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer 2028-29 i 2030-31 yn ddigonol ar gyfer gweithgarwch gorfodi.[64]

**58.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod yr amcangyfrif o £300,000 o gyllid ymlaen llaw yn seiliedig ar brofiad Rhentu Doeth Cymru a'r rhagdybiaeth y bydd angen cymorth ar 1,000 o achosion y flwyddyn gyda materion cydymffurfio. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y bydd 10 y cant o'r 1,000 o achosion yn gofyn am archwiliadau llawn ac yn cyfrif am 10 awr fesul archwiliad, ynghyd ag amser adrodd.[65]

**59.** Mae'r Bil yn creu hawliau newydd i ddarparwyr apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod trwyddedu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i faterion gael eu datrys yn uniongyrchol rhwng yr awdurdod trwyddedu a'r darparwr, a dim ond ychydig o achosion y disgwylir iddynt gyrraedd y Tribiwnlys.[66]

**60.** Cadarnhaodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw apeliadau wedi'u costio ar wahân oherwydd ansicrwydd ynghylch cyfanswm nifer y darparwyr, lefel y cydymffurfio a nifer yr apeliadau.[67]

**61.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys amcangyfrifon isel, uchel, a gorau ar gyfer cost rhedeg yr awdurdod trwyddedu.

---

[63] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 62
[64] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 39
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 381
[66] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 379

***Tabl 3: Cost gweithrediadau'r awdurdod trwyddedu yn 2029-30***

| £ miliwn | Isel | Gorau | Uchel |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 0.82 | 1.47 | 1.66 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staffio | 0.38 | 0.42 | 0.44 |
| **Cyfanswm** | **1.20** | **1.88** | **2.10** |

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2025[68]

**62.** Mae'r costau staff a gyflwynir yn seiliedig ar "amcangyfrif o amseroedd prosesu gan Rhentu Doeth Cymru, ac yn ystyried gwahaniaethau yn nifer y safleoedd, y fethodoleg a lefel y gwiriadau cydymffurfio". Er bod costau'n seiliedig ar wiriadau â llaw, uchelgais Llywodraeth Cymru yw integreiddio Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gwirio dogfennau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

> *"Rydym wedi dechrau ymarfer i gwmpasu'r posibiliadau a byddwn yn diweddaru'r amcangyfrifon ar ôl i hynny gael eu cwblhau."*[69]

**63.** Mae costau nad ydynt yn gostau staff "yn cynnwys offer canolfan gyswllt ar gyfer y ddesg gymorth a chymorth TG, datblygu, cynnal a chostau diogelwch". Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod costau nad ydynt yn gostau staff "yn gymharol sefydlog, ni waeth faint o safleoedd trwyddedig sydd".[70]

## Darparwyr llety ymwelwyr

**64.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amcangyfrifon dangosol ar gyfer y ffi drwyddedu flynyddol yn unig, oherwydd diffyg data ynghylch nifer y safleoedd a darparwyr yng Nghymru. Yn seiliedig ar gyllideb o £2.25 miliwn ar gyfer 2029-30, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gallai ffioedd amrywio o £188 fesul safle (12,000 o safleoedd) i £61 (37,000 o safleoedd), a'r amcangyfrif gorau yw £75 ar gyfer 30,000 o safleoedd. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd ymlaen i ddweud:

> *"… bydd cofrestru yn darparu asesiad mwy cywir o faint a chyfansoddiad cyffredinol ys ector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru, ac, unwaith y bydd data*

[68] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Tabl 4
[69] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 62
[70] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63

*perthnasol ar gael, bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio costau manylach cyn i'r cynllun trwyddedu ddod i rym."*[71]

**65.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys tabl sy'n dangos y ffi drwyddedu flynyddol angenrheidiol i dalu'n llawn am unrhyw lefel benodol o gostau gweithredu. Mae'n nodi:

*"… ni fyddem yn rhagweld cyfuniadau eithafol - er enghraifft, costau gweithredu uchel a nifer isel o safleoedd."*[72]

***Tabl 4: Ffi drwydded flynyddol enghreifftiol***

| | Nifer y safleoedd | | |
|---|---|---|---|
| Costau gweithredu dangosol | 12,000 | 30,000 | 37,000 |
| £1.5 miliwn | £125 | £50 | £41 |
| £1.75 miliwn | £146 | £58 | £47 |
| £2 miliwn | £167 | £67 | £54 |
| £2.25 miliwn | £188 | £75 | £61 |
| £2.5 miliwn | £208 | £83 | £68 |

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2025[73]

**66.** Yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, gwnaeth Cymdeithas Hunan-Arlwywyr yr Alban sylwadau ar yr amcangyfrif o ffi'r drwydded:

*"… in Scotland, they did talk about fees of between £234 and £436 per annum. The reality is that the smallest fee in Scotland is £205 and the biggest is £5,698. And, just referring back to one of your earlier speakers, that £76 may be the fee, that is entirely uncredible on the evidence that we have had from Scotland. So, I would urge extreme caution that you model that correctly."*[74]

**67.** Wrth ymateb i sylwadau Cymdeithas Hunan-Arlwywyr yr Alban, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn bwysig iawn cymharu tebyg wrth debyg. Eglurodd

[71] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 64
[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 64
[73] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Tabl 5
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 279

fod ffi Cymru yn flynyddol, tra bod awdurdodau lleol yr Alban yn gallu rhoi trwyddedau tair blynedd, ac awgrymodd, pe bai trwydded tair blynedd yn cael ei rhoi am £205, y byddai hyn yn eithaf agos at y ffi flynyddol o £75 a gynigir. Ychwanegodd:

> *"… if you were running a Scottish scheme in Wales, £75 might not be enough. But we are not running a Scottish scheme in Wales; we are running a Welsh scheme in Wales, which is pretty different, particularly, as I say, on its national basis, the nature of the requirements that we have in it, the national administration of it—all of which, I think, makes our costs more understandable in the Welsh context than if you were looking at it simply through a Scottish lens."*[75]

**68.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i drwyddedau fod yn ddilys am flwyddyn, gyda'r broses adnewyddu yn gofyn am ddiweddaru a thalu ffi ar-lein. Disgwylir mai £172 fydd y costau blynyddol amcangyfrifedig ar gyfer trwyddedai arferol â dwy safle hunanddarpar, neu £672 ar gyfer darparwyr heb yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Adnewyddu'r drwydded: £154 y flwyddyn (yn cynnwys adnewyddu'r drwydded ddwywaith am ffi o £75 a £4 am 15 munud o gost gyfle i gwblhau'r cais adnewyddu ar-lein);
- Diweddaru dogfennau: £8 y flwyddyn (30 munud o gost gyfle i uwchlwytho copïau i'r porth);
- Ymgymryd â hyfforddiant gloywi bob pum mlynedd: ychydig o dan £10 y flwyddyn (ffi hyfforddi o £15 a chostau cyfle o £33 ar gyfer cwblhau oddeutu dwy awr o hyfforddiant) ar gyfartaledd dros 5 mlynedd;
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus: £0 os yw eisoes wedi'i gynnwys mewn costau aelodaeth; fel arall £500 y flwyddyn.[76]

**69.** Mae amcangyfrif gorau Llywodraeth Cymru, ar sail 30,000 o safleoedd yn parhau i gael eu trwyddedu gan 15,000 o ddarparwyr, yn cyflwyno cost gyffredinol i'r sector o £4.45 miliwn y flwyddyn.[77]

---

[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 361-362
[76] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 65-66
[77] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 66

## Adolygiad ôl-weithredu

**70.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu "o fewn pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym". Bydd yr adolygiad yn "cymharu'r costau a'r manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn â'r costau a'r manteision go iawn".[78]

**71.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai'r adolygiad ôl-weithredu yn ystyried effaith gyfunol y Bil a Deddf Llety Ymwelwyr 2025, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… I don't know how you could carry out a post-implementation review of this Bill if you haven't taken into account the success or otherwise of achieving the register. So, I think it's inevitable that they will—both post-implementation reviews will need to draw on one another…"*[79]

## Barn y Pwyllgor

**72.** Mae'r Pwyllgor yn nodi amcanion y Bil a'i fwriad i wella, cynnal a hyrwyddo llety ymwelwyr yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd y rhan fwyaf o gyfanswm cost amcangyfrifedig y Bil (£41.84 miliwn rhwng 2026–27 a 2035-36) yn cael ei ysgwyddo gan ddarparwyr llety ymwelwyr (£32.37 miliwn).

**73.** Rydym yn nodi'r diffyg data dibynadwy ar faint a chyfansoddiad y sector llety hunanddarpar i lywio'r rhagdybiaethau cost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er ein bod yn cydnabod rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros ddeddfu yn nhymor y Senedd hon, mae absenoldeb data sylfaenol cadarn yn golygu bod ansicrwydd a pherygl o danseilio hyder yn yr amcanestyniadau costau. Fodd bynnag, credwn fod hyn yn cael ei liniaru'n ddigonol gan gynnwys ystod o werthoedd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn seiliedig ar amcangyfrifon isel, uchel, a gorau Llywodraeth Cymru o faint y sector.

**74.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynglŷn â lefel arfaethedig ffi'r drwydded yng Nghymru o'i gymharu â chynlluniau eraill y DU. Rydym yn cydnabod esboniad yr Ysgrifennydd Cabinet bod y cynllun yng Nghymru yn wahanol i fodel yr Alban, yn enwedig yn ei weinyddiaeth genedlaethol a'i strwythur ffioedd blynyddol. Er ein bod yn cydnabod bod y

[78] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 87
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 335

cymariaethau tebyg wrth debyg hyn yn broblematig, rydym yn parhau i gymryd gofal ynghylch y rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcangyfrifon cyfredol.

**75.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ansicrwydd ynghylch a ddylai swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu gael eu cyflawni'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod disgwyliad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd ACC yn rheoli'r agweddau mwy awtomataidd ar y broses o ystyried ei gyfrifoldebau cysylltiedig am y system cofrestru llety ymwelwyr. Ar gyfer achosion mwy cymhleth sy'n gofyn am ddyfarniad ar lawr gwlad, rydym yn nodi awgrym yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldebau, ar ffurf 'model awdurdod lleol arweiniol' tebyg i Rhentu Doeth Cymru, neu Croeso Cymru. Mae'r Pwyllgor o blaid integreiddio swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu o fewn cyrff cyhoeddus presennol Cymru er mwyn osgoi cynnydd diangen mewn costau. Credwn fod angen eglurhad pellach ynglŷn â'r cyrff a fydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn a'r costau cysylltiedig.

**76.** Er ein bod yn deall rhybudd yr Ysgrifennydd Cabinet ynglŷn ag ymrwymo adnoddau cyn i'r Senedd gwblhau gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil, nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dyrannu £430,000 i ACC yn 2025-26 i sicrhau cysondeb rhwng y gofrestr a'r systemau trwyddedu. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurder pellach am yr hyn y bydd y cyllid hwn yn talu amdano, ac i wybodaeth o'r fath gael ei hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn tryloywder.

**77.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod disgwyl i gostau gorfodi'r awdurdod trwyddedu gael eu talu o hysbysiadau cosb benodol, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu £100,000 o gyllid ychwanegol blynyddol ar gyfer gorfodi am y tair blynedd gyntaf. Clywsom fod y cyllid ychwanegol hwn yn seiliedig ar brofiad Rhentu Doeth Cymru a'r rhagdybiaeth mai dim ond 10 y cant o 1,000 o achosion cydymffurfio y flwyddyn fydd angen archwiliadau llawn. Mae'r rhagdybiaeth o 100 o achosion archwilio y flwyddyn yn ein taro fel bod yn isel, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd gweithredu cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai hyn fod yn amcangyfrif rhy isel o gostau gorfodi, a allai beri risg o danseilio hyder yn y cynllun. O ganlyniad, gofynnwn am ragor o fanylion am y gwaith modelu a wnaed yn yr achos hwn i roi sicrwydd bod yr amcangyfrifon yn y Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gadarn.

**78.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ymgymryd ag adolygiad ôl-weithredu o fewn pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd Cabinet bod yn rhaid i unrhyw adolygiad o'r Bil hwn ystyried y gofrestr o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr 2025 a chytuno y bydd angen i'r ddau adolygiad ôl-weithredu dynnu ar ei gilydd i

ddarparu asesiad cynhwysfawr o'r effaith. Credwn fod adolygiad ôl-weithredu trylwyr a gwaith monitro parhaus o gostau'r Bil yn arbennig o bwysig o ystyried y diffyg data dibynadwy sydd ar gael i lywio'r amcangyfrifon cost neu feintioli'r manteision a ragwelir adeg cyflwyno'r Bil. Mae dull o'r fath yn hanfodol i sicrhau y caiff y rhagdybiaethau sy'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu gwerthuso yn erbyn canlyniadau gwirioneddol.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro pa gorff neu gyrff y mae'n cynnig y byddant yn ymgymryd â swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys asesiad o'r goblygiadau ariannol i'r partneriaid cyflawni hyn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2 i adlewyrchu'r buddsoddiad o £430,000 yn 2025-26 i gefnogi gwaith darganfod Awdurdod Cyllid Cymru i gysoni'r gofrestr a'r systemau trwyddedu.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â nifer yr achosion cydymffurfiaeth y bydd angen eu harchwilio bob blwyddyn, gan ddangos yr ystod bosibl o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru, ar ôl Cyfnod 2.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, fod Llywodraeth Cymru yn meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil.